

# It's your information

## Sut i gael mynediad at eich gwybodaeth



Nod y canllaw hwn yw dweud wrthyhych ba hawliau sydd gennych o dan y Ddeddf Diogelu Data 1998 (y Ddeddf) er mwyn cael copi o'r wybodaeth a gedwir amdanoch chi. Gelwir yr hawliau hyn yn hawliau gwrthrych am wybodaeth.

Gelwir ceisiadau i gael mynediad at gofnodion a gwybodaeth berthnasol arall yn 'cais gwrthrych am wybodaeth' ac fe'u gwneir wrth y sefydliad y credwch chi sy'n dal, yn defnyddio neu'n rhannu'r wybodaeth yr ydych chi ei heisiau. Gall gwybodaeth bersonol fod ar ffurf cofnodion papur a chyfrifiadurol ond rhaid i chi fod yn ymwybodol nad yw'r holl wybodaeth bersonol wedi'i chynnwys yn y Ddeddf.

### **Sut y gallaf i gael gwybod beth sy'n cael ei gadw amdanaf i?**

Os ydych chi eisiau gwybod a yw person neu sefydliad yn cadw gwybodaeth amdanoch chi, ac os felly, pa wybodaeth sydd ganddynt, bydd yn rhaid i chi ysgrifennu at y person neu'r sefydliad hwnnw a gwneud cais gwrthrych am wybodaeth. Dylech ofyn am gopi o'r holl wybodaeth a gedwir amdanoch chi. Os nad ydych chi'n siŵr pwy i ysgrifennu atynt o fewn sefydliad, cyfeiriwch eich llythyr at ysgrifennydd y cwmni.

Mae enghraifft o lythyr y gallwch ei defnyddio i gael ar y dudalen nesaf. Mae'n syniad da cynnwys eich enw llawn a chyfeiriad yn y pennawd, ac unrhyw wybodaeth arall a allai fod o gymorth i'ch adnabod chi a'r wybodaeth y mae ei hangen arnoch. Er enghraifft, os ydych chi'n gwneud cais i gyflogwr blaenorol, mae'n bosibl y byddant angen y dyddiadau y buoch chi'n gweithio iddynt er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth amdanoch chi.

O dan amgylchiadau eraill, mae'n bosibl y bydd angen cyfeirnod megis eich rhif Gwasanaeth Iechyd Gwladol os ydych chi'n gofyn am wybodaeth feddygol, ac yn y blaen. Byddwch mor benodol â phosibl. Bydd o gymorth i'r sefydliad os dywedwch wrthynt yn union pa wybodaeth yr ydych chi ei heisiau.

Mae rhai sefydliadau yn gwneud penderfyniadau gan ddefnyddio proses awtomataidd (er enghraifft, gan ddefnyddio system gyfrifiadurol i roi statws credyd i chi). Os ydych chi eisiau iddynt ddweud wrthynt chi hefyd ynghylch y rhesymeg sy'n gysylltiedig â'r penderfyniadau hyn, dylech nodi hynny'n benodol yn eich llythyr.

### **Faint mae'n costio?**

Gallai sefydliadau godi ffi o hyd at £10 (£2 os yw'r cais i asiantaeth statws credyd am eich safle ariannol yn unig).

Mae rheolau arbennig yn berthnasol i ffioedd ar gyfer cofnodion iechyd ar bapur (y ffi uchaf ar hyn o bryd yw £50) a chofnodion addysg (graddfa symudol o £1 i £50 gan ddibynnu ar nifer y tudalennau a ddarperir).

Bydd yn rhaid i chi dalu ffi (os codir tâl arnoch) am bob cais, felly rhaid i chi nodi'r holl wybodaeth y mae ei hangen arnoch yn eich llythyr cyntaf, fel arall mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi dalu ffi arall i gael gwybodaeth y gofynnwch amdani ar achlysur gwahanol.

### **Pa fath o lythyr y dylwn ei ysgrifennu?**

Eich cyfeiriad llawn  
Y dyddiad

Annwyl Syr neu Fadam

(Eich enw llawn a chyfeiriad ac unrhyw fanylion eraill a allai helpu i'ch adnabod chi a'r wybodaeth yr ydych chi ei heisiau.)

Os gwelwch yn dda cyflenwch y wybodaeth y mae gennyf hawl iddi o dan y Ddeddf Diogelu Data 1998 sy'n ymwneud â (rhoch fanylion y wybodaeth yr ydych chi ei heisiau). (Os gwelwch yn dda a wnewch chi ddweud wrthyf y rhesymeg sy'n gysylltiedig ag unrhyw benderfyniadau awtomataidd yr ydych chi wedi'u gwneud amdanaf i.)

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth oddi wrthyf i, neu ffi, rhoch wybod cyn gynted â phosibl.

Os nad y chi sy'n delio â'r ceisiadau hyn fel arfer, a wnewch chi basio'r llythyr hwn at eich Swyddog Diogelu Data neu swyddog priodol arall.

Yn gywir

Llofnod

Y peth gorau yw anfon eich cais drwy ddanfoniad wedi'i gofnodi, a chadwch gopi o'r llythyr a'r holl ohebiaeth arall. Bydd hyn yn bwysig fel tystiolaeth os bydd yn rhaid i chi gwyno nad yw'r sefydliad wedi rhoi'r wybodaeth y credwch chi fod gennych hawl iddi.

## Ymateb i'ch cais

Rhaid i'r sefydliad ateb yn brydlon, ac o fewn 40 diwrnod ar y mwyaf, gan gychwyn o'r dyddiad y byddant yn derbyn y ffi a'r wybodaeth y mae ei hangen arnynt er mwyn eich adnabod chi a'r wybodaeth yr ydych chi ei heisiau. Dim ond saith niwrnod sydd gan yr asiantaeth statws credyd i ymateb i gais am ffeil credyd.

Os yw sefydliad angen mwy o wybodaeth yn rhesymol i'w helpu i ddod o hyd i'ch gwybodaeth neu i'ch adnabod chi, cyhyd a'u bod yn dweud wrthyich yr hyn y mae ei angen arnynt, nid oes yn rhaid iddynt ymdrin â'ch cais hyd nes bod ganddynt yr holl wybodaeth angenrheidiol ynghyd â'r ffi.

Dylai'r sefydliad roi'r wybodaeth i chi'n ysgrifenedig ond nid oes yn rhaid iddynt wneud hynny os nad yw'n bosibl neu os yw'n gofyn am 'ymdrech anghymesur' neu eich bod yn cytuno ar ryw ffurf arall, megis ei gweld ar sgrin. Nid yw'r Ddeddf yn diffinio beth y mae ymdrech anghymesur yn ei olygu ond credwn y dylid rhoi ystyriaeth i'r isod.

- Y gost o roi'r wybodaeth.
- Faint o amser y bydd yn cymryd
- Pa mor anodd y bydd
- Maint y sefydliad
- Yr effaith arnoch chi o beidio â chael y wybodaeth ar ffurf barhaol.

## Beth fydd yn cael ei anfon ataf?

Mae gennych yr hawl i gael gwybod os oes unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei chadw amdanoch chi ac os oes, dylech gael:

- copi o'r wybodaeth ar ffurf barhaol;
- esboniad o unrhyw dermau technegol neu gymhleth;
- unrhyw wybodaeth sydd gan y sefydliad ynghylch ble y cawsant eich gwybodaeth;
- disgrifiad o'r wybodaeth, y dibenion dros brosesu'r wybodaeth; a gyda phwy y mae'r sefydliad yn rhannu'r wybodaeth; a
- y rhesymeg sy'n gysylltiedig ag unrhyw benderfyniadau awtomaid (os ydych chi wedi gofyn yn benodol am hyn).

## Sut y gallaf i gael copi o fy ffeil credyd?

Mae asiantaethau statws credyd yn rhoi ystod o wybodaeth i sefydliadau benthycyca ynghylch benthycwyr posibl, y bydd y sefydliadau hynny yn ei defnyddio i wneud eu penderfyniadau. Gallai'r wybodaeth gynnwys eich hanes credyd blaenorol. Os ydych chi'n gofyn i asiantaeth statws credyd am wybodaeth, dim ond gwybodaeth sy'n perthyn i'ch sefyllfa ariannol y byddant yn anfon atoch, oni bai eich bod yn dweud yn benodol eich bod eisiau gwybodaeth arall, fel sydd yn y llythyr sampl. Er mwyn cael copi o'ch ffeil credyd dylech ysgrifennu at y tair prif asiantaeth statws credyd.

Call Credit plc  
Consumer Services Team  
One Park Lane  
Leeds  
LS3 1EP

Equifax plc  
Credit File Centre  
PO Box 1140  
Bradford  
BD1 5US

Experian Ltd  
Consumer Help Service  
PO Box 8000  
Nottingham  
NG1 5GX

Dylech anfon:

- ffi o £2;
- eich enw llaw a chyfeiriad;
- unrhyw gyfeiriadau eraill yr ydych chi wedi byw ynddynt yn ystod y chwe blynedd diwethaf; a
- manylion unrhyw enwau eraill yr ydych chi wedi'u defnyddio neu yr ydych chi wedi cael eich galw yn ystod yr amser hwnnw.

Oni bai bod yr asiantaethau angen rhagor o wybodaeth, mae ganddynt saith niwrnod gwaith o dderbyn eich llythyr i roi copi o'ch ffeil i chi.

### **A all y sefydliad guddio unrhyw wybodaeth?**

Gall. O dan rai amgylchiadau bydd y wybodaeth yr ydych chi wedi gofyn amdani yn cynnwys gwybodaeth sy'n perthyn i berson arall. Oni bai bod y person arall yn rhoi ei ganiatâd/ei chaniatâd, neu ei fod yn rhesymol o dan yr holl amgylchiadau i ddarparu'r wybodaeth heb ganiatâd, mae gan y sefydliad yr hawl i gelu'r wybodaeth hon.

O dan amgylchiadau eraill gall sefydliad gelu gwybodaeth o dan y Ddeddf. Er enghraifft, pe bai'n rhoi ymchwiliad troseddol neu ddal troseddwr wrth risg. Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth ar yr amgylchiadau lle gallai'r wybodaeth gael ei chelu yn y modd hwn, ewch i'n gwefan ([www.ico.gov.uk](http://www.ico.gov.uk)) ac edrychwch o dan 'Exempt information'.

Hefyd, nid yw'r Ddeddf yn ymdrin â'r holl wybodaeth bersonol. Serch hynny, mae yn ymdrin â gwybodaeth bersonol:

- sy'n cael ei chadw, neu a fydd yn cael ei chadw, ar gyfrifiadur;
- sydd, neu a fydd, ar system ffeilio â llaw, sydd wedi'i strwythuro'n dda fel y gellir cael gafael ar yr holl wybodaeth sy'n cael ei chadw amdanoch chi yn rhwydd;
- sy'n ymwneud yn bennaf â chofnodion iechyd, addysg, gwasanaeth cymdeithasol neu dai; neu
- sy'n wybodaeth arall a gedwir gan awdurdod cyhoeddus.

### **'Gwybodaeth arall' a gedwir gan awdurdod cyhoeddus**

Diwygiodd y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, sy'n berthnasol i awdurdod cyhoeddus, y Ddeddf drwy greu categori arall o wybodaeth bersonol. Mae'r categori hwn yn ymdrin â gwybodaeth bersonol a gedwir amdanoch chi gan awdurdod cyhoeddus sydd:

- wedi'i threfnu'n rhannol, megis mewn ffeil gydag enw rhywun arni sydd wedi'i llunio mewn trefn dyddiadau; neu
- yn ddeunydd 'anstrwythuredig', ac nad yw wedi'i drefnu mewn ffeil nac unrhyw ffordd arall.

Gallwch wneud cais am wybodaeth sydd wedi'i threfnu'n rhannol gan ddefnyddio cais arferol fel y disgrifir yn y daflen hon.

Os ydych chi eisiau mynediad at wybodaeth anstrwythuredig, bydd yn rhaid i chi ddisgrifio'r wybodaeth yr ydych chi ei heisiau er mwyn i'r awdurdod ddod o hyd iddi. Er mai'r ffi ar gyfer mynediad at wybodaeth awdurdod cyhoeddus yw £10, gall yr

awdurdod amcangyfrif y gost o drin y cais ar gyfer gwybodaeth anstrwythuredig, a gwrthod y cais os yw'n costio mwy na £450 (neu £600 os yw'n llywodraeth ganolog).

Ni allwch ddefnyddio'r categori hwn er mwyn sicrhau mynediad at wybodaeth bersonél anstrwythuredig a gedwir gan awdurdod cyhoeddus. Y rheswm dros hyn yw nad oes gan weithwyr awdurdodau cyhoeddus fwy o hawliau i'w gwybodaeth bersonol na gweithwyr y sector preifat.

### **Beth allaf i ei wneud os nad yw sefydliad yn cydymffurfio gyda fy nghais gwrthrych am wybodaeth?**

Os ydych chi wedi anfon yr holl wybodaeth angenrheidiol (gan gynnwys unrhyw ffi) a:

- nad yw'r sefydliad yn ymateb i'ch cais o fewn 40 diwrnod; neu
- nad ydych chi'n fodlon gyda'u hymateb;

dylech anfon nodyn atgoffa atynt drwy ddsbarthiad wedi'i gofnodi (a chadw copi o'r llythyr).

Os nad ydych chi'n derbyn ateb yn weddol gyflym, neu'n meddwl bod y wybodaeth yr ydych chi wedi'i derbyn yn anghywir neu'n anghyflawn, gallwch:

- gofyn i ni ymgymryd ag asesiad i weld a yw'n debygol neu'n annhebygol bod y sefydliad wedi ymateb yn gywir; neu
- gymryd camau cyfreithiol drwy'r llysoedd. Am wybodaeth ar sut i wneud hyn, gweler eich taflen 'Dwyn achos i'r llys'.

Bydd ein hasesiad yn dweud wrthych os yw'n debygol bod y sefydliad wedi torri'r Ddeddf ac fe allai eich helpu i benderfynu a ddylid cymryd camau cyfreithiol. Serch hynny, gallwch ddwyn achos i'r llys heb ofyn i ni am asesiad.

### **Pa orchmynion gall y llys ei wneud?**

Os yw llys yn fodlon nad yw sefydliad wedi ymdrin â chais gwrthrych am wybodaeth yn unol â'r Ddeddf, gall y llys eu gorchymyn i gydymffurfio. Mae gan y llys y pŵer hefyd i ddyfarnu iawndal. Am ragor o wybodaeth ar hyn, gweler ein taflenni 'Hawlio iawndal', a 'Dwyn achos i'r llys'.

## **Rhagor o wybodaeth**

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth ar yr agwedd hon o ddiogelu data neu unrhyw agwedd arall, cysylltwch â ni.

**Ffôn:** 08456 30 60 60  
01625 54 57 45

**E-bost:** defnyddiwch ein ffurflen ymholiadau ar-lein ar ein gwefan

**Gwefan:** [www.ico.gov.uk](http://www.ico.gov.uk)